

Ysgol Uwchradd Bodedern



Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Polisi gwreiddiol:	Haf 2005	Mabwysiadwyd:	Gorffennaf 2008
Adolygwyd:	Gorffennaf 2007	Mabwysiadwyd:	Mawrth 2009
Adolygwyd:	Mawrth 2009	Mabwysiadwyd:	Tachwedd 2010
Adolygwyd:	Medi 2010	Mabwysiadwyd:	Gorffennaf 2012
Adolygwyd:	Mehefin 2012	Mabwysiadwyd:	Gorffennaf 2013
Adolygwyd:	Gorffennaf 2013	Mabwysiadwyd:	Gorffennaf 2014
Adolygwyd:	Gorffennaf 2014	Mabwysiadwyd:	Gorffennaf 2015
Adolygwyd:	Gorffennaf 2015	Mabwysiadwyd:	Gorffennaf 2016
Adolygwyd:	Gorffennaf 2016		
Adolygiad nesaf:	Gorffennaf 2017		

Adolygir y polisi hwn bob blwyddyn

1. Cyflwyniad

Mae Ysgol Uwchradd Bodedern yn cydnabod yn llawn ei chyfrifoldebau tuag at Ddiogelu ac Amddiffyn Plant.

Mae ein polisi yn berthnasol i'r holl staff, llywodraethwyr ac i wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant. Gall plant ddatgelu achosion o gam-drin yn gyntaf i gynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion yn ogystal ag athrawon.

Mae pum prif elfen i'n polisi:

- Sicrhau ein bod yn gweithredu arferion recriwtio diogel trwy wirio addasrwydd staff a gwirfoddolwyr i weithio gyda phlant.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion amddiffyn plant ac arfogi plant gyda'r sgiliau sydd angen i'w cadw yn ddiogel.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant Diogelu plant rheolaidd ar y lefel berthnasol a bod gweithdrefnau adnabod a chyfeirio achosion neu bryder am gamdriniaeth yn cael eu datblygu a'u gweithredu
- Cynnal disgyblion sydd wedi eu cam-drin yn unol â'u cynllun amddiffyn cytunedig
- Sefydlu amgylchedd diogel lle y gall disgyblion ddysgu a datblygu.

2. Atal

Yr ydym yn cydnabod bod staff ysgol, oherwydd eu cyswllt beunyddiol gyda disgyblion, mewn sefyllfa dda i arsylwi ar arwyddion allanol camdriniaeth. Rydym yn cydnabod bod lefel uchel o hunan-barch, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da ag oedolyn dibynadwy yn helpu i ddiogelu disgyblion.

Bydd yr ysgol felly:

- yn sefydlu a chynnal amgylchedd lle y gall disgyblion deimlo'n ddiogel, lle yr anogir hwy i fynegi eu hunain, a lle y gwrandewir arnynt.
- yn sicrhau bod y disgyblion yn gwybod bod yna oedolion yn yr ysgol y gallant droi atynt os yn poeni neu os ydynt mewn trafferthion
- yn cynnwys cyfleoedd yn y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu'r sgiliau sydd angen arnynt i adnabod a chadw yn ddiogel rhag camdriniaeth ac yn rhoi gwybod iddynt at bwy i droi am gymorth
- yn cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant i feithrin agweddau realistig at gyfrifoldebau oedolion, yn enwedig yng nghyswllt sgiliau gofal plant a rhianta.

3. Gweithdrefnau

Bydd yr ysgol yn dilyn "Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008", sydd wedi eu cymeradwyo gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, ac yn talu sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn:

- sicrhau bod gennym athro / athrawes dynodedig amddiffyn plant (sef aelod o'r Uwch Dim Arweinyddol) a dirprwy dynodedig amddiffyn plant sydd wedi derbyn hyfforddiant a chynhaliaeth.
- sicrhau bod gennym lywodraethwr enwebedig ar gyfer amddiffyn plant a fydd yn goruchwyllo polisi ac arferion yr ysgol ar gyfer amddiffyn plant.
- sicrhau bod pob aelod o staff, pob llywodraethwr a phob gwirfoddolwr yn gwybod enw'r athro / athrawes dynodedig amddiffyn plant (ac aelodau o'r Tim Amddiffyn

Plant) ac yn gwybod sut i weithredu ar y pryderon hynny os nad yw'r uwch swyddog dynodedig ar gael

- sicrhau bod holl staff a gwirfoddolwyr yn deall eu cyfrifoldeb trwy fod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth a'r cyfrifoldeb arnynt i gyfeirio pryderon i'r athro /athrawes dynodedig amddiffyn plant.
- cydnabod hawl pob aelod o staff a gwirfoddolwr i "ganu cloch" trwy gynnwys cyfeiriadau clir at y drefn mewn hyfforddiant ac yn nogfennaeth yr ysgol.
- sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb a osodir ar yr ysgol a'r staff ym maes amddiffyn plant trwy gynnwys oblygiadau hynny ym mhrosbectws yr ysgol.
- darparu hyfforddiant i'r holl staff fel y byddant yn gwybod:
 - beth yw eu cyfrifoldeb personol
 - y gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt
 - bod angen bod yn effro i achosion o gam-drin
 - sut i gynorthwyo plentyn sy'n datgelu camdriniaeth.
- gwybod sut i hysbysu'r tîm gwasanaethau cymdeithasol lleol:
 - os bydd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei wahardd o'r ysgol am gyfnod penodol neu'n barhaol
 - os bydd disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol o'r ysgol heb eglurhad am fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod ar ôl y penwythnos)
- gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol gyda'r asiantaethau perthnasol a chydweithio â hwy yn ôl yr angen os byddant yn gwneud ymholiadau ynghylch materion amddiffyn plant gan gynnwys bod yn bresennol mewn adolygiad cychwynnol ac mewn cynadleddau amddiffyn plant a grwpiau craidd a thrwy gyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau
- yn cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon ynghylch plant (a fydd yn cynnwys y dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed os nad oes angen atgyfeirio'r mater i'r gwasanaethau cymdeithasol ar unwaith
- yn sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a than glo
- yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau yng nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 002/2013: 'Cadw dysgwyr yn ddiogel'.
- yn sicrhau bod y gweithdrefnau recriwtio a dethol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn 'Diogelu Plant mewn Addysg'

4. Cynorthwyo'r disgybl sydd mewn perygl

Yr ydym yn cydnabod y gall disgyblion sydd wedi eu cam-drin neu sydd wedi bod yn dystion i gamdriniaeth ei chael yn anodd i ddatblygu synnwyr o hunan werth. Gallant deimlo anobaith, cywilydd neu fai. Gall ysgol fod yr unig elfen sefydlog ym mywyd y plentyn. Pan yn yr ysgol, gall ymddygiad y disgybl fod yn heriol neu yn fewnblyg. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i gynnal y disgybl trwy:

- gynnwys deunydd yn y cwricwlwm i hybu hunan-barch a hunanysgogiad
- ethos yr ysgol a fydd:
 - yn hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel
 - yn ennyn ymdeimlad mewn disgyblion eu bod yn cael eu parchu
- strategaeth ymddygiad ysgol sy'n anelu at gynnal disgyblion mewn perygl ac sy'n agored i niwed yn yr ysgol.
- Bydd yr holl staff yn cytuno ar ddull cyson o weithredu a fydd yn canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn wrth gyflawni'r tramgwydd ond na fydd yn amharu ar hunan-

barch y disgybl. Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond ei fod yn cael ei barchu ac nad yw ar fai am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd;

- drwy gydgyfylltu ag asiantaethau eraill a fydd yn helpu'r myfyriwr fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad, y Gwasanaeth Lles Addysg a gwasanaethau eiriolaeth
- drwy gadw cofnodion a hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y bydd pryder yn codi eto
- Pan fydd disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ymadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r ysgol newydd ar unwaith ac yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

5. Dylid ystyried y polisi hwn ochr yn ochr â'r canlynol:

- polisi gwrth- fwlio
- polisi radicaleiddio
- polisi ymateb i waith ac ymddygiad
- polisi addysg rhyw a pherthnasoedd
- polisi addysg camddefnyddio sylweddau

Cyflwynir Adroddiad ar Ddiogelu Plant i'r Corff Llywodraethol ac i'r Awdurdod Addysg yn flynyddol, ar ffurf dogfen a baratowyd gan y Swyddog Addysg Uwchradd.